PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Swyddog Datblygu Sesiynol – Cyfranogiad

## (Cyfrwng Cymraeg)

### Pecyn Ymgeisio

# Cyflwyniad

**Teitl y Swydd:** Swyddog Datblygu Sesiynol Cyfranogiad

**Yn adrodd i'r:** Rheolwr Cymru Ifanc

**Lleoliad:** Gweithio o Gaerdydd, gyda theithio sylweddol ledled Cymru

**Oriau Gwaith:** Sesiynol – Oriau hyblyg trwy gytundeb yn ôl anghenion y rhaglen

**Gofynion Iaith:** Mae'r rôl hon yn galw am lefel uchel o rugldер yn Gymraeg. Mae'r gallu i gyfathrebu'n hyderus ac yn broffesiynol trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol.

Lluniwyd yr wybodaeth amgaeedig i roi darlun llawnach i chi o ofynion y swydd a gwybodaeth am Plant yng Nghymru.

Lluniwyd y disgrifiad swydd i grynhoi'n glir gwmpas a chyfrifoldebau'r swydd, a dylid ei ddarllen yn drylwyr. Diben y fanyleb person yw nodi, mor fanwl gywir â phosibl, y sgiliau, y profiad a'r wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn i ymgeiswyr fedru bodloni gofynion y swydd. **Mae'n hanfodol eich bod yn darllen hyn yn ofalus ac yn rhoi sylw i'r meini prawf a geir yn y fanyleb person yn eich cais.** Os na wnewch hynny, bydd gennych lawer llai o gyfle o gael eich dewis ar gyfer cyfweliad.

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw haner dydd 18 Mehefin 2025**

**Byddwn ni'n cynnal cyfweliadau 25 Mehefin 2025**

Rydyn ni'n ymroddedig i ddarparu gwasanaethau sy'n croesawu amrywiaeth ac yn hybu cyfle cyfartal. Seiliwyd hynny ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a byddwn yn glynu at y drefn honno ym mhob cam o'r broses recriwtio.

Rydyn ni'n ymroddedig i fod yn gorff gwrth-hiliol a chynyddu amrywiaeth trwy ddileu rhwystrau a chefnogi ein holl staff i gyflawni eu potensial. Rydyn ni'n ymroddedig i recriwtio pobl Ddu, Asiaidd ac o leiafrifoedd Ethnig, a phobl anabl, sydd wedi'u tangynrychioli ar hyn o bryd yn Plant yng Nghymru.

Rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan bawb, heb ystyried oedran, priodas a phartneriaeth sifil (un rhyw a gwahanrywiol), namau neu gyflyrau iechyd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, hunaniaeth rhywedd neu fynegiant rhywedd.

Ein panel recriwtio fydd yn llunio'r rhestr fer ar gyfer cyfweld. Fyddan nhw ddim yn gweld eich manylion cyswllt nac unrhyw wybodaeth cyfle cyfartal. Bydd yr wybodaeth a gafwyd gan ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ei chadw'n ddiogel am gyfnod o 1 flwyddyn, ac yna'n cael ei dinistrio heb ei datgelu.

I arbed costau, dim ond trwy e-bost y gallwn gydnabod ein bod wedi derbyn eich cais.

Os llwyddwch i symud ymlaen i gyfweliad, cewch wybod trwy'r cyfeiriad e-bost a roddwyd i ni.

# Disgrifiad Swydd

**Teitl y Swydd:** Swyddog Datblygu Sesiynol Cyfranogiad

**Yn adrodd i'r:** Rheolwr Cymru Ifanc

**Lleoliad:** Gweithio o Gaerdydd, gyda theithio sylweddol ledled Cymru

**Oriau Gwaith:** Sesiynol – Oriau hyblyg trwy gytundeb yn ôl anghenion y rhaglen

**Cyfradd Talu:** £250 am dydd

**Prif bwrpas y rôl:**

Bydd y Swyddog Datblygu Sesiynol – Cyfranogiad (Cyfrwng Cymraeg) yn cefnogi cyflwyno gwaith hawliau plant a chyfranogiad Plant yng Nghymru, yn bennaf trwy greu cysylltiad â phlant a phobl ifanc yn y Gymraeg, a hefyd â'r sefydliadau a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi. Mae hyn yn cynnwys cyfrannu at Cymru Ifanc – Young Wales, ac agenda ehangach y sefydliad o ran polisi ac addysgu'r cyhoedd.

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau**

**Cymru Ifanc**

- Cynllunio a chyflwyno sesiynau cyfranogiad ac ymgyngoriadau â phlant a phobl ifanc ledled Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Creu cysylltiad â phlant a phobl ifanc mewn lleoliadau a chymunedau cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu cynrychioli mewn polisi ac ymarfer.
- Gweithio gyda sefydliadau partner i hybu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ac annog gweithgareddau cyfranogiad dwyieithog neu gyfrwng Cymraeg.
- Cydlynu a hwyluso cyfarfodydd, gweithdai a digwyddiadau dan arweiniad ieuenctid yn Gymraeg.
- Datblygu a chyfieithu adnoddau, adroddiadau a deunydd hyrwyddo i'r Gymraeg.
- Cefnogi cynhyrchu a lledaenu adroddiadau ymgynghori a chrynodebau ar gyfer amrywiol gynulleidfaoedd, yn cynnwys plant, gweithwyr proffesiynol a llunwyr penderfyniadau.

**Datblygu Polisi (Cyfraniad Cymraeg)**

- Casglu a dadansoddi adborth gan blant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg i lywio datblygiad polisi.
- Cyfrannu at friffiadau polisi ac ymatebion ymgynghori trwy ymgorffori safbwyntiau cyfranogwyr Cymraeg eu hiaith.
- Gweithio ar y cyd â'r tîm polisi i nodi materion allweddol sy'n dod i'r amlwg o gymunedau a rhwydweithiau Cymraeg eu hiaith.

**Gweithio mewn Partneriaeth a Rhannu Ymarfer**

- Meithrin a chynnal perthnasoedd cryf ag ymarferwyr a sefydliadau sy'n gweithio mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith neu leoliadau cyfrwng Cymraeg.
- Rhannu enghreifftiau arfer da o waith cyfranogiad a wnaed yn Gymraeg.
- Cynrychioli Plant yng Nghymru mewn cyfarfodydd, rhwydweithiau a digwyddiadau perthnasol lle mae angen arbenigedd cyfrwng Cymraeg.

**Cyflwyno Prosiectau'n Hyblyg**

- Cefnogi prosiectau a nodau ehangach y sefydliad ar sail sesiynol, gan gyfrannu amser yn hyblyg i gadw at derfynau amser a blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.
- Cyflawni dyletswyddau gweinyddol cysylltiedig â gwaith sesiynol (e.e. amserlennu, adrodd, cofnodi data).
- Sicrhau bod yr holl waith a gyflwynir yn cydymffurfio â pholisïau diogelu, cynhwysiad a chydraddoldeb.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol, gan y gallai Plant yng Nghymru ofyn bod deilydd y swydd yn cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill, o bryd i'w gilydd, wrth gyfrannu at gyflawni ei weithgareddau.

# Manyleb Bersonol

Bydd gofyn bod deilydd y swydd yn teithio i ddigwyddiadau a chyfarfodydd ledled Cymru.

**Gofynion Allweddol – Hanfodol**

1. Siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl, gyda hyder i gyfathrebu â ieuenctid a phobl broffesiynol yn Gymraeg.

2. Profiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc, o ddewis mewn rolau cyfranogiad neu ymgysylltu â phobl ifanc.

3. Gwybodaeth am Ddiogelu ar waith, gan gynnwys diogelu cyd-destunol a digidol ac ymrwymiad i ddysgu a datblygu parhaus yn y maes hwn.

4. Dealltwriaeth o hawliau plant, yn enwedig CCUHP.

5. Ymrwymiad i arfer cynhwysol

6. Sgiliau da o ran ymwneud â phobl, meithrin perthynas a threfnu.

7. Profiad o gasglu a dadansoddi data

8. Gallu i weithio'n hyblyg, yn annibynnol ac fel rhan o dîm.

9. Gallu i flaenoriaethu a chadw at derfynau amser

10. Gallu i gynrychioli Plant yng Nghymru gyda chynulleidfaoedd allanol.

# Gwybodaeth Gefndir

Children in Wales – Plant yng Nghymru yw'r corff cynrychioliadol cenedlaethol o aelodau ar gyfer unigolion a sefydliadau o bob sector sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru. Daw ein haelodau o'r sectorau cyhoeddus, elusennol/nid-er-elw ac annibynnol. Bydd ein gwaith wedi'i seilio ar ddull cydweithredol, sy'n hwyluso cyfleoedd i'n haelodau, ac i blant a phobl ifanc.

Byddwn ni'n gweithio tuag at gyflawni ein gweledigaeth ar y cyd â'n haelodau trwy wneud y canlynol:

- Ymgyrchu dros fabwysiadu a gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn llawn ar bob lefel o'r gymdeithas yng Nghymru.
- Herio anghydraddoldeb a hybu tegwch i'r holl blant a phobl ifanc ledled Cymru.
- Cyfuno a chwyddo llais ar y cyd dros newid trawsffurfiannol ar lefel polisi yng Nghymru.
- Hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn strwythurau gwneud penderfyniadau ar bob lefel o'r llywodraeth yng Nghymru.
- Darparu llwyfan ar gyfer rhannu ymarfer arloesol ledled Cymru.
- Eiriol o blaid y sector(au) plant mewn meysydd blaenoriaeth.
- Darparu cyfleoedd dysgu a datblygu i'r gweithlu plant proffesiynol ar draws sectorau.
- Ymgymryd â gwaith ymchwil a'i ledaenu ymhlith ein haelodau.

Mae Plant yng Nghymru yn cyflawni nifer o weithgareddau er mwyn cyrraedd y nodau hyn. Yn eu plith mae:

- Trefnu cynadleddau a seminarau
- Darparu hyfforddiant
- Cefnogi a datblygu rhwydweithiau a fforymau cryf
- Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth
- Cynrychioli'r aelodau ac ymgynghori â nhw
- Gwaith ymchwil
- Gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc trwy ein prosiect Cymru Ifanc

Mae Plant yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r cyrff cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae ganddo gysylltiadau cryf yn Ewrop ac yn rhyngwladol.

Fel corff o aelodau rydym ni'n sefydlu rhwydweithiau yng Nghymru er mwyn cynrychioli barn yr etholaeth, canfod pryderon cyffredin, ac annog gweithgaredd amlddisgyblaeth. Gall yr aelodau fod yn rhai corfforaethol neu unigol, a deuant o ystod eang o ddiddordebau, megis iechyd, addysg, sefydliadau gwirfoddol, gwasanaethau cymdeithasol, neu grwpiau hunan-gymorth.

Ariannir ein gwaith trwy grantiau gan Lywodraeth Cymru, rhoddwyr grantiau eraill, ac incwm a gynhyrchwn ein hunain.

Llywodraethir gwaith y sefydliad gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr

[Swyddi | Children in Wales]